**COFNODION O GYFARFOD PWYLLGOR AMCANION CYFFREDINOL A CHYNLLUNIO CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE COLWYN, NOS FAWRTH, 23AIN AWST 2016 AM 6.30 P.M.**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd N. Bastow (Cadeirydd)
Cynghorwyr W. Bagnall, Mrs G. Baker, Mrs L. Edwards, R. Foreman, Mrs L. Griffiths, Mrs M. Jones, S. Williams, C. Wood

**SWYDDOGION:** Mrs C. Earley (Clerc y Dref)

**142/16 Ymddiheuriadau am Absenoldeb:**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd ac fe gyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd J. Pearson, C. Perry a Tom Owens (Myfyriwr Ymgynghorol).

**14316 Datgan Cysylltiadau:**

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu rai sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

**144/16 Cofnodion:**

a. ***Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 26ain Gorffennaf 2016 a'u llofnodi i fod yn adroddiad cywir.***
b. ***Penderfynwyd derbyn cofnodion Is-Bwyllgor y Tân Gwyllt a gynhaliwyd ar 17eg Awst a nodi'r prif benderfyniadau ynddynt.***

**145/16 Cefnogi Ailgyfanheddu Pobl Fregus o Syria:**

Penderfynwyd trafod eitem 10 ar yr agenda yng nghynt yn y cyfarfod am fod y Cynghorydd Roy wedi cyrraedd i gyflwyno adroddiad ar y cyd â'r Cynghorwyr G. Baker a C. Wood a fu'n bresennol hefyd yn nigwyddiad rhandeiliaid Cymunedau yn Gyntaf. Fe nodwyd y gofynnwyd i bob Sir rhoi cartref i 5 neu 6 o deuluoedd o Syria yn ystod 2016/17, ond nid oedd maint y teuluoedd hyn yn hysbys ar hyn o bryd. Fe ddynodwyd nifer o fannau yn y Sir a fyddai'n addas ar gyfer hyn a bod Bae Colwyn yn un ohonynt, os oedd eiddo addas ar gael i'w gosod yn y sector preifat. Diystyrwyd rhai o'r cymunedau cefn gwlad oherwydd yr anawsterau a ragwelwyd i deuluoedd ymsefydlu yna a chael hyd i waith. Siaradodd un o Syria oedd yn byw yn lleol am yr anawsterau a wynebir gan deuluoedd a gofynnwyd i randeiliaid ystyried pa gymorth y gellir cynnig iddynt integreiddio i'r gymuned leol. Fe nodwyd fodd bynnag, nad oedd yn hysbys ar hyn o bryd a fyddai rhai o'r 5 neu 6 teulu yn ymgartrefu yn ardal Bae Colwyn. Fe gefnogir y cynllun gan y Swyddfa Gartref gyda chyllid o 100% yn y flwyddyn gyntaf, ond wedyn byddai'n gostwng ar raddfa symudol am gyfnod o bum mlynedd. Roedd yr aelodau o'r farn ei bod yn iawn i gynnig cymorth i bobl fregus, ond dylai hyn cael ei gyllido yn llawn gan y Llywodraeth Ganolog am y cyfnod llawn o bum mlynedd.

***Penderfynwyd gohirio unrhyw drafodaeth bellach hyd nes ei bod yn hysbys os yw rhai o'r teuluoedd am gael ymgartrefu yn ardal Bae Colwyn.***

**146/16 <u>Materion yn Codi o Gofnodion Blaenorol:</u>**

**a. Cofnod 70/16(d) - Llochesi Bysus:**

Rhoddodd y Cynghorydd Wood a'r Clerc adroddiad byr ar lafar yn dilyn yr arolygiad diweddar ar lochesi. Fe nodwyd bydd adroddiad ysgrifenedig ac amcan bris am y gwaith yn cael i gyflwyno yn y man.

***Penderfynwyd disgwyl am yr adroddiad a'r amcan bris***

**(b) Cofnod 70/16(f) - Rheiliau Beiciau Spar:**

Cyflwynodd y Clerc gohebiaeth oddi wrth berchennog rhydd-ddaliad y safle yn dweud wrth y Cyngor mai fel arfer dau o reiliau beiciau byddant yn gosod y tu allan i'w siopau newydd. Fe nodwyd bod cais wedi cael ei anfon yn gofyn am ganiatâd i dri (llai na'r pump gwreiddiol), oherwydd bydd y rheiliau yn gallu cael eu defnyddio ar gyfer siopau eraill yn y cyffiniau. Fe nodwyd ymhellach bod un amcan bris ychwanegol wedi cael ei dderbyn ar gyfer y gwaith o'u gosod ac fe ofynnir am drydedd, unwaith daw caniatâd yn cadarnhau naill ai dau neu dri o reiliau.

**(c) Cofnod 109/16(e) - Chwistrellu Ffyrdd gyda Chwynladdwr a Glanhau Strydoedd:**

Cyflwynodd y Clerc ymateb manwl oddi wrth Tom Gravett, CBS Conwy, yn cadarnhau'r llwybrau'r strydoedd oedd yn cael eu chwistrellu gyda chwynladdwr ac yn cael eu glanhau o sbwriel, ac amlder y fath wasanaeth. Fe nodwyd y dylai unrhyw gais i lanhau strydoedd nad ydynt wedi eu cynnwys yn y rhestr, cael ei gyflwyno i ERF trwy'r llinell ffôn sydd ar gael neu'r manylion cyswllt e-bost, fel y gellir creu cyfeirnod gwaith ar ei gyfer a threfnu i'r gwaith cael ei wneud.

**147/16 <u>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):</u>**

Cyflwynodd y Clerc yr ohebiaeth ganlynol oddi wrth GBSC i'w ystyried:

**a.** Hysbysiad am reoliad traffig dos dro ar Ffordd Wynnstay, Hen Golwyn

**b.** Diweddariad am Gam 2 o Gynllun Lan y Môr:
Gofynnodd yr Aelodau pam nad oedd yr offer wedi cyrraedd y safle hyd yn hyn ac eto bod y ffordd wedi bod ar gau am yn agos i bythefnos.
***Penderfynwyd cysylltu â Swyddog y Prosiect i ofyn pam nad oes llawer i weld i fod yn digwydd ar y safle hyd yn hyn.***

**c.** Cyfarfod Grŵp Swyddogion Byw yn y Bae a gynhaliwyd ar 8fed Awst:
Fe nodwyd nad oedd y Clerc wedi gallu mynychu'r cyfarfod ond ei bod wedi derbyn diweddariad byr oddi wrth R. Dix parthed yr adolygiad o'r Prif Gynllun. Mae CBSC yn bwriadu cyflwyno cais yn unol â chynllun benthyg Llywodraeth Cymru ar gyfer Canol Dref a Rheolaeth Tref Bae Colwyn (ni ofynnir am gyfraniad ariannol eleni oherwydd mae gan Ingrid cylch gwaith ehangach rŵan).

**ch.** Gwasanaethau Ieuenctid:
Fe nodwyd na dderbyniwyd ymateb i'r ymholiad a anfonwyd at GBSC parthed y posibilrwydd o newidiadau i'r ddarpariaeth o glybiau ieuenctid / gwasanaethau ieuenctid.

***Penderfynwyd nodi'r pryderon a gofyn i'r Clerc trafod hyn gyda Phennaeth y Gwasanaeth ac adrodd yn ôl.***

**d.** Ymgynghoriad ar y bwriad i godi premiwm treth Cyngor ar ail gartrefi: Fe nodwyd bod ymgynghoriad CBSC wedi darfod ar 16/8. Anfonwyd manylion at bob aelod trwy e-bost cyn y dyddiad hwn, ar ol i bobl gydag ail gartrefi yn yr ardal, cysylltu â nifer o Gynghorwyr, gan gwyno am y bwriad i godi'r dreth cyngor i hyd at 100% yn fwy na phreswylwyr llawn amser lleol. Dosbarthwyd gohebiaeth hefyd gan Gynghorwyr gyda phrofiad yn y gorffennol / presennol am dai cymdeithasol, y ddau ohonynt yn gwneud y sylw bod ail gartrefi a thai gwag yn creu pwysedd ar y galw am dai a bod hyn wedyn yn chwyddo prisiau tai gan ei gwneud yn anodd i bobl ifanc lleol cael prynu eu cartref cyntaf. Cafwyd trafodaeth am y materion yn ymwneud a'r grym newydd hwn, y cydnabyddir i fod o fudd yn y mannau hynny o Gymru lle mae canran uchel o ail gartrefi, llawer ohonynt yn cael eu gosod ar gyfer gwyliau ac yn wag am y mwyafrif o'r flwyddyn. Gofynnwyd a oedd hyn yn broblem ym Mae Colwyn neu yn yr ardal ehangach o fewn Sir Conwy. Roedd rhai o'r aelodau o'r farn y dylid croesawu / annog twristiaeth naill ai trwy berchnogaeth o ail gartrefi neu lety mewn gwesty / Gwely a Brecwast oherwydd bod hyn yn rhan arwyddocaol o'n heconomi leol. Fe nodwyd nad oedd Aelodau wedi cael y cyfle i fynegi eu barn unigol yn ystod y cyfnod ymgynghori, ond roedd y cyfnod hwn wedi dod i ben rŵan. Mynegwyd pryder na chafodd yr ymgynghoriad llawer o gyhoeddusrwydd a bod y Cynghorwyr wedi dod yn ymwybodol ohono yn dilyn y pryder a fynegwyd gan berchnogion tai. Datganodd un aelod ei bryder bod holl system y dreth cyngor yn annheg ac y dylid cael ei adolygu.

***Penderfynwyd gofyn i'r Clerc cysylltu â ChBSC i ofyn pam na chafodd y Cyngor Tref wybod am yr ymgynghoriad ac nad oedd wedi cael ei gyhoeddi'n ehangach i drigolion lleol, fel y gallent roi eu sylwadau.***

***Fe benderfynwyd ymhellach i ofyn am grynodeb o ganlyniad yr arolwg ac argymhellion yn y man.***

**dd.** Ymateb i'r pryder am oriau cau toiledau cyhoeddus: Fe nodwyd bod y toiledau dynion a merched (Rhos Point) yn cael eu cau fel arfer ar yr un adeg (rhwng 7pm a 9pm). Ni chafwyd eglurhad, ac eithrio gwall dynol, pam bod un wedi cloi ag un ar agor ar y dyddiad y soniwyd amdano. Fe nodwyd bod toiledau ger y Pier i ailagor (wedi gwella'n sylweddol gobeithio) unwaith bydd y cam nesaf o'r gwaith ar lan y môr wedi cael ei gwblhau.

**e.** Pryderon am y groesfan sebra ger Nino's, ar y promenâd yn Llandrillo yn Rhos a'r wasgfa o draffig yn ystod misoedd prysuraf yr haf, pan fo'r groesfan yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd gan nifer fawr o bobl. Fe nodwyd bod y mater wedi cael ei gyfeirio at yr adran Briffyrdd yn y gorffennol (rhai blynyddoedd yn ol) ond ni waned dim.

***Penderfynwyd ysgrifennu at ERF i ddatgan pryderon am faint y traffig oherwydd y defnydd o'r groesfan yn rheolaidd gan gerddwyr yn ystod yr haf a gofyn am groesfan pelican gydag isafswm amser i alluogi traffig i symud yn rhwyddach.***

**f.** Adolygiad Strategol o Asedau Parcio Ceir CBSC - Maes Parcio Berthes Road: Cyflwynodd y Clerc llythyr oddi wrth ERF yn gofyn am ateb i lythyr dyddiedig 3ydd Mehefin oedd wedi mynd ar goll. Roedd y llythyr gwreiddiol yn ymgynghori ar y cynlluniau i godi tâl am barcio ym maes parcio Berthes Road, Hen Golwyn, neu fel arall, i gynnig prydles o'r maes parcio i'r Cyngor Tref neu fudiad arall am bris i'w gytuno, a fyddai'n llai na'r incwm yr amcangyfrifir byddai'n cael ei greu trwy godi tâl.

Fe nodwyd bydd Mr Vic Turner yn dod i gyfarfod nesaf y Pwyllgor i drafod y cynnig ag i ateb cwestiynau gan yr Aelodau. Roedd y Clerc wedi gwahodd Rheolwr Prosiect BID a chynrychiolwyr grŵp prosiect BID Hen Golwyn i'r cyfarfod hefyd.

**148/16 <u>Gweithdy Chwarae Cymru - Chwarae yn y Stryd:</u>**

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried cais gan y Cynghorydd G. Baker iddi gael mynychu gweithdy un diwrnod er mwyn iddi gael gwell dealltwriaeth am y model 'chwarae allan'. Y gost oedd £99 yn ychwanegol at gost y siwrne trên i Gaerdydd ac yn ol. Fe nodwyd bod Cynghorau Tref a Chymuned yn benodol ar y rhestr dosbarthu ond nid oedd Caerdydd yn lle arbennig o hwylus i gynghorau Gogledd Cymru.

***Penderfynwyd yn y lle cyntaf, i ofyn a fyddai Millie Boswell (Swyddog Datblygu Chwarae CVSC) am fod yn bresennol, ac os oedd, estyn gwahoddiad iddi roi cyflwyniad i'r Cyngor Tref.***

**149/16 <u>Cofeb Rhyfel Hen Golwyn:</u>**

Cyflwynodd y Clerc llythyr oddi wrth Bwyllgor Cofeb Rhyfel a Chadoediad Hen Golwyn (yn cynnwys ar hyn o bryd y Cynghorydd B. Cossey a'r Canon Bellamy), yn gofyn i'r Cyngor Tref cymryd y cyfrifoldeb am Gofeb Rhyfel Hen Golwyn a Gwasanaeth y Cadoediad. Mynegwyd pryder bod y gofeb o fewn tir Eglwys St Catherine, sydd wedi cau, a bod dipyn o drafod wedi bod am y posibilrwydd o'i adleoli i safle cyhoeddus arall yn y dyfodol. Yn ol y llythyr 'nid oedd un rhyw fwriad i'w symud' ar hyn o bryd. Mynegwyd pryder hefyd am y posibilrwydd i'r Cyngor Tref ddod yn gyfrifol, yn y man, am yr orymdaith flynyddol at y gofeb ar Sul y Cofio, yn ogystal â Gwasanaeth y Cadoediad. Byddai hyn yn rhoi pwysedd ychwanegol ar y staff sydd eisoes yn ymwneud a threfnu'r brif orymdaith a'r gwasanaeth ym Mae Colwyn ar yr un diwrnod.

***Penderfynwyd argymell anfon ateb yn dweud os nad oes gan y Pwyllgor ddigon o aelodau r gyfer ei dyletswyddau, yna dylai, yn y lle cyntaf, ceisio cael mwy o aelodau yn hytrach na throsglwyddo'r cyfrifoldeb i eraill yn ei gyfanrwydd. Fe nodwyd gall hyn cynnwys gofyn i'r Eglwys, y Lleng Prydeinig a chynrychiolwyr o Gynghorau Tref a Chymuned i enwebu cynrychiolwyr yn ffurfiol. Byddai partneriaeth fel hyn yn well na throsglwyddo'r cyfrifoldeb i un mudiad a hwn fyddai'r ffordd orau i ddiogelu'r gofeb yn yr hirdymor.***

**150/16 <u>Defnyddio Mapiau Google:</u>**

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried cynnig gan y Cynghorydd Foreman bod gweithgor yn cael ei greu i weld beth all mapiau Google cynnig i helpu i hysbysebu Bae Colwyn.

***Penderfynwyd gofyn i weithgor bach yn cynnwys y Cynghorwyr R. Foreman, N. Bastow ag S. Williams ystyried y posibilrwydd o ychwanegu tirnodau a gwybodaeth leol ar fapiau Google ac adrodd yn ol gydag unrhyw argymhellion yn y man.***

**151/16 <u>Gohebiaeth Arall:</u>**

Fe nodwyd bod yr eitem ganlynol o ohebiaeth ar gael gan y Clerc ar gais:

**a.** Cofnodion cyfarfod Cymdeithas Trigolion Hen Golwyn (y Dwyrain) a gynhaliwyd ar 10fed Awst.

**152/16 <u>Cynllunio</u>:**

a. Cyflwynodd y Clerc y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd gan GBS Conwy i'w ystyried. Cyflwynwyd gwrthwynebiad ysgrifenedig gan breswylydd o Ffordd Abergele, Hen Golwyn parthed cais O/42998.

***Penderfynwyd cyflwyno sylwadau ar y ceisiadau hyn fel y maent yn ymddangos yn Atodlen 'A' sydd gyda hwn.***

b. ***Penderfynwyd derbyn copi o'r Penderfyniadau Cynllunio a wnaed gan GBS Conwy a nodi bod yr ymgeisydd am apelio yn erbyn y penderfyniad i wrthod cais O/42896 (53 Marine Drive, Llandrillo yn Rhos).***

c. Fe nodwyd bod ceisiadau O/42870, O/42871 ag O/42555 wedi cael eu tynnu'n ol.

ch Cymorth Cynllunio Cymru - Digwyddiad i Ymglymu Rhwydwaith Cymunedol:
Fe nodwyd bod tri lle wedi cael eu cadw ar gyfer digwyddiad 'Place Plans- from concept to reality' a gofynnwyd i'r aelodau penderfynu pwy oedd am fynd.

***Penderfynwyd penodi'r Cynghorwyr Mrs G. Baker, Mrs l. Griffiths a'r Clerc i fynd.***

d. Rhoddodd y Cynghorydd Mrs M. Jones adroddiad byr ar lafar am yr ymweliad safle a gynhaliwyd ar 9fed Awst parthed cais Ffordd Dolwen. Nid oedd y penderfyniad ar y cais hwn yn hysbys hyd yn hyn.

dd. Cyflwynodd y Clerc dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru ar gyngor cynllunio newydd (TAN) ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol.

***Penderfynwyd derbyn a nodi'r TAN ddrafft cynhwysfawr iawn.***

**153/16 <u>Trwyddedau:</u>** Fe nodwyd nad oedd unrhyw geisiadau am drwyddedau i'w ystyried.

Daeth y Cyfarfod i ben am 8.15 pm ……………………… Cadeirydd

**MINUTES OF A MEETING OF THE GENERAL PURPOSE AND PLANNING COMMITTEE OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL, HELD AT 6.30PM ON TUESDAY 23RD AUGUST 2016, IN THE COMMITTEE ROOM, TOWN HALL, RHIW ROAD, COLWYN BAY**

**PRESENT:** Cllr N Bastow, Chairman
Cllrs W Bagnall, Mrs G Baker, Mrs L Edwards, R Foreman, Mrs L Griffiths, Mrs M Jones, S Williams, C Wood

**OFFICER:** Mrs C Earley, Town Clerk

**142/16 Apologies for Absence:**

The Chairman welcomed everyone to the meeting and apologies for absence were received from Cllrs: J Pearson and C Perry and from Student Advisor Tom Owens.

**143/16 Declarations of Interest:**

Members were reminded that they must declare the existence and nature of any personal and/or prejudicial interests. None were declared.

**144/16 Minutes:**

- **a.** ***Resolved to receive, approve and sign as a correct record the minutes of the last meeting, held on 26th July 2016.***
- *b.* ***Resolved to receive the minutes of the Bonfire Sub-Committee, held on 17th August, and note the main resolutions therein.***

**145/16 Supporting the Resettlement of Syrian Vulnerable People:**

Resolved to take agenda item 10 earlier in the meeting, as Cllr Roy had arrived to give a joint report with Cllrs: G Baker and C Wood, who had also attended the Communities First stakeholder event. It was noted that all Counties had been asked to house 5 or 6 Syrian families during 2016/17, but that the size of these families was not yet known. Several areas in the County had been identified as suitable, with Colwyn Bay being one of these, subject to the availability of suitably sized private sector rental property(ies). Some of the more rural and Welsh speaking communities had been ruled out from taking families, due to the anticipated difficulties for the families in settling and finding work there. A local Syrian spoke about the difficulties being faced by the families and stakeholders were asked to consider what support could be given them, to help them to integrate into the local community. However, it was noted that it was not yet known whether any of the 5 or 6 families would be housed in the Bay of Colwyn area. The scheme is being supported by the Home Office with 100% funding support in year one, but thereafter reducing on a sliding scale for a five year period. Members felt it was right to offer assistance to vulnerable families, but felt that this should be wholly funded by Central Government for the full five year period.

***Resolved to defer any further discussion until it was know if any of the***

***families would be housed in the Bay of Colwyn area.***

**146/16 <u>Matters Arising from Previous Minutes</u>:**

a. **Min. 70/16(d) – Bus Shelters:**

Cllr Wood and the Clerk gave a brief verbal report following the recent survey of shelters. It was noted that a written report and quotation for the work identified would be submitted in due course.

***Resolved to await the report and quotation.***

b. **Min 70/16(f) – Spar Cycle Racks:**

The Clerk submitted correspondence from the freehold site owner informing the Council that they usually only place two bike stands outside their new sites. It was noted that a reply has been sent requesting permission for three (reduced from five), as the stands will also serve other shops in the locality. It was further noted that one additional quotation has been received for installation and a third will be sought, once permission is confirmed for either two or three stands.

c. **Min. 109/16(e) – Roadside weed spraying and street cleaning:**

The Clerk submitted a detailed response from Tom Gravett, CCBC, confirming the routes and frequency or roadside weed spraying and litter picking. It was noted that requests outside of these routes should be submitted to ERF via the dedicated phone or e-mail contact details, so that a work number is allocated and action can be followed up.

**147/16 <u>Conwy CBC</u>:**

The Clerk submitted the following correspondence from CCBC, for consideration:

a. Notification of temporary traffic regulation at Wynnstay Road, Old Colwyn.

b. Waterfront Phase 2 update:
Members queried why the plant hadn't yet arrived on site, but the road had been closed for almost 2 weeks now.
***Resolved to contact the Project Officer to query why it didn't seem that much was happening on site yet.***

c. Bay Life Officer Group meeting, held on 8th August:
It was noted that the Clerk had not been able to attend the meeting but that she had received a brief update from R Dix regarding the Masterplan review, CCBC plans to submit an application under the Welsh Government's Town Centre loan scheme and Bay of Colwyn Town Management (no financial contribution will be requested this year, as Ingrid now has a wider remit).

d. Youth Services:
It was noted that no reply had been received to the query sent to CCBC regarding possible changes to youth clubs / youth service provision.
***Resolved to note the concerns and request the Clerk to follow this up***

***with the Head of Service and report back.***

e. Consultation on proposals for Council tax premium on second homes:
It was noted that the CCBC consultation had closed on 16/8. Details had been forwarded to all members by e-mail prior to this date, after several councillors had been contacted by people with second homes in the area, who were complaining about the proposal to increase their council tax to up to 100% more that paid by full time local residents. Correspondence had also been circulated by two councillors with past/present experience of social housing, both commenting that second and empty homes were putting pressure on the demand for housing, which inflates prices and makes it more difficult for local people to get on the housing ladder. A debate took place about the issues surrounding this new power, which it was recognised could be beneficial in areas of Wales with a large percentage of second homes, many of which are not used as holiday lets and are empty for most of the year. It was questioned whether this was a problem in Colwyn Bay or the wider Conwy area and some members were of the view that tourism, whether it be by second home ownership or hotel/B&B accommodation, should be welcomed/encouraged as it plays such a significant role in our local economy. It was noted that members had had the chance to make their individual views known during the consultation period, but this had now closed.
Concern was expressed that the consultation had not been well publicised and councillors had only become aware of it following contact from concerned home owners.
One members stated concern that the whole council tax system was unfair and should be reviewed.

***Resolved to request that the Clerk contacts CCBC to query why the Town Council was not informed of the consultation and it was not publicised more widely to local residents, so that their views could be sought.***

***Further resolved to request a summary of the survey results and recommendation(s) in due course.***

f. A response to a concern about closure times of public conveniences. It was noted that the ladies and gents (Rhos Point) are usually closed at the same time (between 7pm and 9pm) and there was no explanation, other than human error, for one being locked and one remaining open on the date mentioned. It was noted that the toilets by the Pier will be reopening (hopefully much improved) once the next phase of waterfront works have been completed.

g. Concerns regarding the zebra crossing by Ninos, Rhos on Sea promenade and the traffic build up during the busier summer months, when there is a regular stream of people using the crossing. It was noted that this had been raised with highways in the past (several years ago), but that there had been no action taken.

***Resolved to write to ERF to state concerns about the traffic build-up due to the regular stream of pedestrians using the crossing during the summer months and to request that it be replaced with a pelican***

***crossing with a minimum time interval, to allow traffic to flow more freely in between.***

h. CCBC Car Parking Asset Strategy Review – Berthes Road Car Park: The Clerk tabled a letter from ERF chasing a response to a letter dated 3rd June, which had gone astray. The original letter had been consulting on proposals to introduce car parking charges at Berthes Road car park in Old Colwyn, or alternatively to lease the car park to the Town Council or other organisation for an agreed price, which would be less than the estimated income that would be generated by introducing fees.

It was noted that Mr Vic Turner would be attending the next meeting of the Committee to discuss the proposal and answer any questions from members. The Clerk had also informed the BID Project Manager and representatives from the Old Colwyn BID project group may also attend.

**148/16 <u>Play Wales Street Play Workshop:</u>**

Members were asked to consider a request by Cllr G Baker to attend the one-day workshop, to have a clearer understanding of the 'playing out' model, at a cost of £99 plus return travel to Cardiff. It was noted that Town and Community Councils were specifically included on the distribution list, but that Cardiff was not a particularly accessible venue for councils in North Wales.

***Resolved to first enquire if Millie Boswell (CVSC based Play Development Officer) is attending and, if so, to invite her to give a presentation to the Town Council.***

**149/16 <u>Old Colwyn War Memorial:</u>**

The Clerk submitted a letter from the Old Colwyn War Memorial and Armistice Committee (currently comprising Cllr B Cossey and Canon Bellamy), asking that the Town Council takes over responsibility for the Old Colwyn War Memorial and Armistice Service. Concern was expressed that the memorial was in the grounds of the now closed St Catherine's Church and that there had been some discussion about whether it should be moved to another public location in the future, although the letter stated that there was currently 'no plan of any kind to move it'. Concern was also expressed about the possibility of the Town Council subsequently becoming responsible for the annual Remembrance Sunday parade to the memorial, as well as any Armistice Day service, due to the additional pressure this would place on staff already involved in the organisation of the main Colwyn Bay parade and service on the same day.

***Resolved to recommend that a response is sent stating that, if the committee currently has insufficient manpower for its responsibilities, then it should first look to strengthen its numbers, rather than seeking to pass responsibility on to others in its entirety. It was noted that this could include asking the Church, British Legion, Town and County Councils to formally nominate representatives. A partnership approach such as this, rather than transferring responsibility to a single body, was considered to be the best way to safeguard the memorial in the long term.***

**150/16 Use of Google Maps:**

Members were asked to consider a proposal by Cllr Foreman that a working group be set up to explore the potential of google maps to help publicise what the Bay of Colwyn has to offer.

***Resolved to ask a small working group, comprising Cllrs R Foreman, N Bastow and S Williams, to consider the potential of adding local landmarks and information to Google maps and to report back with any recommendations in due course.***

**151/16 Other Correspondence:**

**It** was noted that the following item(s) of correspondence are available on request from the Clerk:

a. Minutes of OC(E)RA meeting, held on 10th August.

**152/16 Planning:**

a. The Clerk submitted, for consideration, the planning applications received from CCBC. A written objection from a resident of Abergele Road, Old Colwyn, was tabled in respect of application 0/42998.

   ***Resolved to submit observations on these applications, as detailed in Schedule A attached.***

b. ***Resolved to receive a copy of the Planning Decisions issued by CCBC and to note that the applicant is appealing the refusal of 0/42896 (53 Marine Drive, Rhos on Sea).***

c. It was noted that applications 0/42870, 0/42871 and 0/42555 had been withdrawn.

d. Planning Aid Wales Community Engagement Network Event:
   It was noted that three places have been reserved for the 'Place Plans- from concept to reality' event and members were asked to consdier who should attend.

   ***Resolved that Cllrs Mrs G Baker, Mrs L Griffiths and the Clerk would attend.***

e. Cllr Mrs M Jones gave a brief verbal report from the site visit held on 9th August regarding the Dolwen Road application. It was not yet known what the decision on this application had been.

f. The Clerk submitted, for consideration, a WG consultation document on new planning advice (TAN) for the historic environment.

   ***Resolved to receive and note the draft TAN, which was considered to be very comprehensive.***

**153/16 Licensing:** It was noted that there were no licensing applications for consideration.

The meeting closed at 8:15pm ……………………….. Chairman